**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 2 HYDREF 2019**

## Cabinet Members:

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Cadeirydd|), D.Jones, E.V.Latham, P.A.Rees a/ac A.Wingrave

## Swyddogion yn bresennol:

S.Phillips, A.Evans, H.Jenkins, G.Nutt, K.Jones, C.Griffiths, C.Furlow-Harris, C.Davies a/ac T.Davies

## Swyddfa Archwillio Cymru:

Cynghorydd M.Harvey

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. BLAENRAGLEN WAITH 2019/20

Nodwyd gan y pwyllgor

## 3. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL CHWARTER 1

**Penderfyniad:**

Caiff yr adroddiad ei nodi.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-22

**Penderfyniadau:**

1. Cyflwyno'r dogfennau canlynol (a atodwyd i'r adroddiad a ddosbarthwyd) i'r cyngor i'w cymeradwyo:

   - Cynllun Corfforaethol Drafft 2018-22 Adroddiad Blynyddol (adroddiad cynnydd llawn)
   - Cynllun Corfforaethol Drafft 2018-22 Adroddiad Blynyddol (adroddiad cryno)
   - Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun Corfforaethol 2018-22
   - Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus - Cymariaethau Cymru Gyfan 2018-19

2. Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i amcanion lles y cyngor ar yr adeg hon.

3. Dylai Arweinydd y Cyngor gael yr awdurdod i wneud newidiadau angenrheidiol i'r adroddiad blynyddol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid yn sylweddol gynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan y cyngor.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Bodloni'r gofynion statudol a nodwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL: ARCHWILIO'R CAM 'BYDDWN YN GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID I SICRHAU EIN BOD YN TARGEDU CEFNOGAETH I'R RHEINI Y MAE EU PLANT MEWN PERYGL O BROFIADAU NIWEIDIOL YN YSTOD PLENTYNDOD YN YSTOD Y 1,000 O DDIWRNODAU CYNTAF EU BYWYDAU' - CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT, MEHEFIN 2019**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

6. **FFÏOEDD SY'N DALADWY AR GYFER GWAITH CYFREITHIOL**

**Penderfyniad:**

O fis Medi 2019 dylid cyflwyno ac adennill ffïoedd y gellir eu priodoli i'r gwaith a wneir gan is-adran y gwasanaethau cyfreithiol wrth baratoi Gorchmynion Traffig Ffordd ar ran cyrff allanol, y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd,

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r gwasanaethau cyfreithiol i adennill costau unrhyw waith a wneir ar ran cyrff allanol wrth baratoi Gorchmynion Traffig Ffordd ar gyfer, neu ar ran, y sefydliadau hynny.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

7. **DATGANIAD DIGIDOL**

Roedd aelodau'n falch o nodi bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthi'n gwneud rhagor o waith ar yr agenda digidol.

**Penderfyniadau:**

1. Llofnodi'r Datganiad Digidol fel dangosydd arall sy'n dangos ymrwymiad y cyngor i gydweithio wrth ddatblygu strategaeth digidol ei hun a'i rhoi ar waith.

2. Rhoi cymeradwyaeth i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol fod yn rhan o’r Grŵp Cynghori Llywodraeth Leol, neu ei gefnogi, ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau perthnasol.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Atgyfnerthu â rhanddeiliaid ymrwymiad y cyngor i gydweithio a sicrhau bod y cyngor yn chwarae rôl weithredol wrth lywio'r defnydd o fentrau digidol wrth drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 8. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - Y CREUNANT

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais i brynu eitemau hanfodol o gyfarpar cyfalaf ar gyfer 8fed Grŵp Sgowtiaid y Creunant Castell-nedd, y Creunant, a neilltuo £1,060.91 o arian y Cynghorydd Sian Harris dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 9. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - PORT TALBOT AC ABERAFAN

**Penderfyniad:**

Cynnal digwyddiad Nadolig allweddol yng nghanol tref Port Talbot yn 2019, gyda'r Cynghorwyr Steffan ApDafydd, Scott Bamsey, Nigel Hunt, Sharon Freeguard, Dennis Keogh a Saifur Rahaman yn cyfrannu £1,666.65 yr un o'u Cronfeydd Cymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r Ffurflen Gais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**